

Polisi diogelu data

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r polisi diogelu data ar gyfer yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer lechyd a Gofal Cymdeithasol ('yr Awdurdod').
- 1.2 Mae'r Awdurdod yn rheolydd data ac yn 'awdurdod cyhoeddus' at ddibenion deddfwriaeth diogelu data.
- 1.3 Mae'r polisi hwn yn rhan o'n strategaeth ar gyfer trin data personol (a gwybodaeth sensitif arall) ac mae'n egluro hawliau a chyfrifoldebau'r rhai sy'n trin data personol. Mae'r holl staff wedi'u rhwymo'n gytundebol i gydymffurfio â pholisïau diogelu data a pherthnasol yr Awdurdod.
- 1.4 Ein nod yw:
 - Dangos ymrwymiad yr Awdurdod i Ddeddfwriaeth Diogelu Data (DPL) ac egwyddorion diogelu data
 - Amlinellu sut y bydd yr Awdurdod yn gweithio i gydymffurfio â'r DPL trwy fesurau technegol a sefydliadol ac egwyddorion diogelu data trwy ddyluniad a diogelu data yn ddiodyn.
- 1.5 Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â:
 - Deddf Diogelu Data – polisi hawliau unigol.

2. Cwmpas

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl ddata personol, ar ffurf electronig ac ar bapur, a gedwir gan yr Awdurdod, a drosglwyddir i drydydd partïon neu a gyfnewidir â hwy, neu a gedwir gan drydydd partïon ar ran yr Awdurdod.
- 2.2 Bydd gofynion ar gcontractwyr yn cael eu nodi yn y trefniadau cytundebol gyda nhw, neu hysbysiadau eraill a roddir o bryd i'w gilydd.

3. Rolau a chyfrifoldebau

- 3.1 Y Prif Weithredwr, yn ei rôl fel Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) sy'n bennaf gyfrifol am gydymffurfiaeth yr Awdurdod â'r Ddeddf Diogelu Data.
- 3.2 Mae'r Pennaeth Llywodraethu yn gweithredu fel Swyddog Diogelu Data (DPO) yr Awdurdod ac mae'n gyfrifol am gynghori'r Awdurdod ar faterion diogelu data.
- 3.3 Mae Perchnogion Asedau Gwybodaeth (IAO), y Cyfarwyddwyr ar gyfer pob un o'r tair Cyfarwyddiaeth, yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â diogelu data yn eu meysydd. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod trydydd partïon yn cydymffurfio wrth brosesu data personol ar ran yr Awdurdod. Dylai IAOs gysylltu â'r DPO neu'r SIRO o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os ydynt yn ansicr o'r sail gyfreithlon y maent yn dibynnu arni i brosesu data personol
- Os oes angen iddynt ddibynnu ar ganiatâd ar gyfer prosesu data personol
- Os oes angen iddynt baratoi hysbysiadau preifatrwydd neu wybodaeth dryloywder arall
- Os ydynt yn ansicr ynghylch y cyfnod cadw ar gyfer y wybodaeth sy'n cael ei phrosesu
- Os ydynt yn ansicr ynghylch pa fesurau diogelwch neu fesurau eraill y mae angen iddynt eu rhoi ar waith i ddiogelu data personol
- Os ydynt yn ansicr ar ba sail i drosglwyddo data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)
- Pan fydd gwrthrych data yn gofyn am ei hawliau data
- Pryd bynnag y maent yn cymryd rhan mewn gweithgaredd prosesu newydd sylweddol, neu newid mewn gweithgaredd prosesu sy'n debygol o fod angen DPIA neu'n bwriadu defnyddio data personol at ddibenion heblaw'r rhai y'i casglwyd yn wreiddiol ar eu cyfer
- Os ydynt yn bwriadu ymgymryd ag unrhyw weithgareddau sy'n ymwneud â phrosesu awtomataidd gan gynnwys proffilio neu wneud penderfyniadau awtomataidd
- Os oes angen help arnynt gydag unrhyw gontractau neu feysydd eraill mewn perthynas â rhannu data personol â thrydydd partion (gan gynnwys ein contractwyr)
- Os ydynt yn bwriadu rhannu data gyda sefydliad neu berson arall mewn ffordd a allai fel arall effeithio ar hawliau unigol.

4. Cydymffurfiad

- 4.1 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod hyfforddiant gorfodol rheolaidd a pharhaus ar gael i staff i hybu dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod. Bydd unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu pellach yn cael eu hasesu yn ôl yr angen.
- 4.2 Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r systemau a'r prosesau sydd o dan ei reolaeth yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi hwn a gwirio bod rheolaethau ac adnoddau llywodraethu digonol ar waith i sicrhau defnydd priodol ac amddiffyniad o ddata personol.
- 4.3 Gall unrhyw achos honedig o dorri'r polisi hwn arwain at ymchwiliad a allai arwain at gymryd camau gan yr Awdurdod gan gynnwys gweithdrefnau disgyblu neu derfynu contract am wasanaethau.

5. Adolygu polisi

- 5.1 Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn flynyddol, neu'n amlach os bydd unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol.

6. Yr egwyddorion diogelu data

- 6.1 Er mwyn bodloni gofynion y DPL bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod data personol:
- Wedi'i brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw (cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder)
 - Wedi'i gasglu at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon yn unig, a heb ei brosesu ymhellach mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny (cyfyngiad diben)
 - Yn digonol, perthnasol a chyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer (lleihau data)
 - Yn gywir, a lle bo angen yn cael ei gadw'n gyfredol (cywirdeb)
 - Heb ei gadw ar ffurf sy'n nodi gwrthrychau data am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y mae'r data'n cael ei brosesu ar eu cyfer (cyfyngiad storio)
 - Wedi'i brosesu mewn modd sy'n sicrhau ei ddiogelwch gan ddefnyddio mesurau technegol a threfniadol priodol i amddiffyn rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol (diogelwch, uniondeb a chyfrinachedd)
 - Heb ei drosglwyddo i wlad arall heb fod mesurau diogelu priodol ar waith (cyfyngiad trosglwyddo)
 - Ar gael i wrthrychau'r data a chaniateir i wrthrychau'r data arfer hawliau penodol mewn perthynas â'u data personol (hawliau a cheisiadau gwrthrych y data).
- 6.2 Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am, a rhaid iddo allu dangos cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data a restrir uchod (atebolrwydd).

7. Prosesu a defnyddio data personol, a'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data

Deddfwriaeth diogelu data

- 7.1 Bydd yr Awdurdod yn cynnal log archwilio gwybodaeth bersonol sy'n nodi'r gweithgareddau prosesu o dan ei gyfrifoldebau yn unol â'r DPL.
- 7.2 Mae'r Awdurdod yn prosesu data personol yn bennaf am:
- Y rhai sy'n gweithio i'r Awdurdod ac ar ei ran
 - Unigolion sy'n cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei swyddogaethau

- Rhanddeiliaid allanol a chwsmeriaid sy'n ymgysylltu â'r Awdurdod am y gwaith y mae'n ei wneud, gan gynnwys y rheini sy'n dymuno gwneud cwyn am yr Awdurdod.
- 7.3 Mae'r seiliau cyfreithlon o dan y DPL ar gyfer prosesu data personol gan yr Awdurdod yn gyffredinol oherwydd:
- Mae angen i ni brosesu'r data ar gyfer perfformiad contract gyda gwrthrych y data
 - Mae angen i ni brosesu'r data i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol ar yr Awdurdod (ac yn benodol ein dyletswyddau sy'n codi yn sgil Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002)
 - Mae angen i ni brosesu'r data ar gyfer perfformiad tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer swyddogol sydd wedi'i freinio yn yr Awdurdod (ac yn benodol ein swyddogaethau sy'n codi yn sgil Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002)
- 7.4 Mae'n bosibl na fydd yr amodau uchod yn berthnasol i rai gweithgareddau a gyflawnir gan yr Awdurdod. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr Awdurdod yn cofnodi'r amodau cyfreithloni amgen y mae'n prosesu'r data personol oddi tanynt.
- 7.5 Mae'r Awdurdod yn prosesu data personol categori arbennig penodol. Er enghraifft, mewn cysylltiad â'i swyddogaethau fel cyflogwr yn ogystal â chyflawni rhai swyddogaethau craidd. Yn gyffredinol, yr amodau cyfreithloni ar gyfer prosesu o'r fath yw:
- Perfformio neu arfer rhwymedigaethau neu hawliau'r Awdurdod neu wrthrych y data at ddibenion cyflogaeth
 - Arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Awdurdod gan ddeddfiad (fel Deddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002) ac sy'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd
 - Monitro ac adolygu cyfle cyfartal neu driniaeth gyfartal gan yr Awdurdod
 - Atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon, fel bod yn rhaid prosesu heb ganiatâd Gwrthrych y Data er mwyn peidio â niweidio'r dibenion hynny, a'i fod yn angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd;
 - Er mwyn diogelu'r cyhoedd rhag anonestrwydd, camymddwyn, anaddasrwydd neu anghymhwysedd, rhaid prosesu felly heb ganiatâd gwrthrych y data er mwyn peidio â pheryglu'r swyddogaeth honno, ac mae'n angenrheidiol am resymau sydd o fudd sylweddol i'r cyhoedd.

Cyfrinachedd

- 7.6 Mae dyletswydd cyfrinachedd yn codi pan ddarperir gwybodaeth, er enghraifft, pan fydd rheolydd yn trosglwyddo cofnodion meddygol unigolyn i aelod o staff.
- 7.7 Er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau o dan gyfraith gyffredin cyfrinachedd, yr egwyddor gyffredinol yw na ddylid defnyddio na datgelu gwybodaeth a gedwir gan yr Awdurdod sy'n ymwneud ag unigolion ac eithrio yn unol â'r Awdurdod sy'n arfer unrhyw swyddogaeth a roddwyd iddo gan neu o dan ddeddfiad, er

budd y cyhoedd, neu gyda chaniatâd yr unigolyn (neu o fewn eu disgwyliadau rhesymol). Nid yw methiant i ddeall y defnydd a datgeliad tebygol o wybodaeth yn lleihau'r ddyletswydd o gyfrinachedd.

- 7.8 Mewn achosion o amheuaeth dylai staff drafod gyda'r DPO, IAO neu'r SIRO.

Tryloywder

- 7.9 Mae gwybodaeth gyffredinol am sut mae'r Awdurdod yn prosesu data personol ar gael ar ein gwefan. Bydd yr Awdurdod hefyd yn cyfathrebu gwybodaeth prosesu teg trwy ohebiaeth neu ddeunydd arall a gyfeirir at wrthrychau data penodol neu grwpiau o wrthrychau data.
- 7.10 Bydd yr Awdurdod fel arfer yn ceisio darparu gwybodaeth prosesu teg i wrthrychau data ar yr adeg y ceir y wybodaeth, neu o fewn 30 diwrnod. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fydd yn bosibl neu'n briodol darparu gwybodaeth prosesu teg o fewn yr amserlen honno, er enghraifft oherwydd bod angen i ni adolygu'r wybodaeth yn gyntaf er mwyn cyflawni ein swyddogaethau'n briodol.
- 7.11 Gall natur ei waith eithrio'r Awdurdod o rwymedigaethau penodol i ddarparu gwybodaeth prosesu teg, ac i gydymffurfio â hawliau gwrthrych data eraill, lle byddai'r prosesu'n peryglu cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod yn briodol. Yn yr un modd, efallai na fyddwn yn sicrhau bod gwybodaeth prosesu teg ar gael pan fydd data personol yn cael ei brosesu at ddibenion cael cyngor cyfreithiol, achosion cyfreithiol (gan gynnwys achosion cyfreithiol arfaethedig), neu rannu gwybodaeth â'r heddlu neu gyrrff gorfodi'r gyfraith eraill.

Cyfyngiad pwrpas

- 7.12 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn casglu data at ddibenion penodol, eglur a chyfreithlon yn unig. Ni fydd yr Awdurdod yn prosesu data ymhellach mewn unrhyw fodd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
- 7.13 Lle mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio data at ddiben arall, gwahanol neu anghydnaws i'r hyn a nodwyd pan gawsom y data gyntaf, byddwn yn sicrhau bod unrhyw oblygiadau preifatrwydd y cynigion wedi'u hasesu. Yna byddwn yn hysbysu gwrthrych y data o'r dibenion newydd a bod sail gyfreithiol briodol i'r dibenion hynny.

Lleihau data

- 7.14 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod y data personol y mae'n ei brosesu yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y caiff ei brosesu ar eu cyfer.
- 7.15 Rhaid dileu neu ddinistrio gwybodaeth yn ddiogel cyn gynted ag nad oes eu hangen mwyach yn unol â pholisi cadw'r Awdurdod.
- 7.16 Rhaid i staff brosesu data personol yn ôl yr angen ar gyfer eu rôl yn unig.

Cywirdeb

- 7.17 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol, bod y data personol y mae'n ei gadw yn gywir a, ble fo angen, yn cael ei gadw'n gyfredol.

- 7.18 Mae staff yn gyfrifol am wirio cywirdeb unrhyw ddata personol ar y pwynt casglu ac yn rheolaidd wedi hynny. Rhaid i staff gymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu ddiweddarau data personol anghywir neu wedi dyddio.
- 7.19 O bryd i'w gilydd efallai y byddwn yn derbyn gwybodaeth sy'n (neu'n ymddangos i fod) ffeithiol anghywir, neu farn y mae rhywun yn anghytuno ag ef. Mae'n bosibl y byddwn yn parhau i gadw copïau o wybodaeth o'r fath fel rhan o'n swyddogaethau.

Cyfyngiad storio, cadw a dinistrio

- 7.20 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau nad yw data personol yn cael ei gadw ar ffurf adnabyddadwy am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol at y dibenion y caiff y data ei brosesu ar eu cyfer yn unol â'i bolisi cadw.

Diogelwch, uniondeb a chyfrinachedd

- 7.21 Mae gan yr Awdurdod fesurau diogelu priodol i ddiogelu'r data personol rydym yn ei brosesu rhag cael ei ddinistrio'n ddamweiniol neu'n anghyfreithlon, ei golli, ei newid, ei ddatgelu heb awdurdod, neu fynediad at ddata personol a drosglwyddir, a storiwyd neu a brosesir fel arall.
- 7.22 Mae'n rhaid i staff a chontractwyr yr Awdurdod gydymffurfio â'r *ddogfen Dileu a pholisi defnyddwyr TG* a'r *polisi Diogelu data personol a sensitif*, sy'n nodi'r mesurau y mae'n rhaid eu cymryd i ddiogelu cyfrinachedd, cywirdeb ac argaeledd yr holl ddata personol o'r pwynt casglu i pwynt dinistr.

Digwyddiadau diogelwch

- 7.23 Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n gysylltiedig â digwyddiad diogelwch gwybodaeth (neu ddigwyddiad a amheuir), gan gynnwys risg o doriad, godi'r pryderon hyn gyda'r DPO, IAO neu'r SIRO cyn gynted â phosibl ar ôl dod yn ymwybodol ohono. Gall unrhyw un o weithwyr yr Awdurdod, cyflenwr neu unrhyw un sy'n gweithio i'r Awdurdod neu ar ei ran hysbysu digwyddiadau.
- 7.24 Rhaid adrodd a rheoli digwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn unol â *Chanllawiau'r Awdurdod ar adrodd am achosion o dorri rheolau data annosbarthedig a dosbarthedig*.

Cyfyngiad trosglwyddo

- 7.25 Bydd yr Awdurdod ond yn trosglwyddo data y tu allan i'r AEE pan fo'n angenrheidiol er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod, os yw'n angenrheidiol er budd y cyhoedd, bod gwrthrych y data wedi cydsynio'n benodol i'r trosglwyddiad neu oherwydd bod y trosglwyddiad yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Hawliau a cheisiadau gwrthrych y data

- 7.26 Dylai unrhyw un sy'n dymuno arfer ei hawl i ofyn am fynediad at ddata personol y mae'r Awdurdod yn ei gadw amdanynt wneud y cais yn ysgrifenedig i'r DPO.
- 7.27 Rhaid anfon unrhyw gais Gwrthrych Data a dderbynnir cyn gynted â phosibl at y DPO a'i drin yn unol â *pholisi Hawliau Unigol* yr Awdurdod.

Preifatrwydd trwy ddyluniad

- 7.28 Bydd yr Awdurdod yn ystyried a lle bo'n briodol yn gweithredu mesurau technegol a threfniadol priodol (fel ffugenw) mewn modd effeithiol, i sicrhau cydymffurfiaeth ag egwyddorion preifatrwydd data trwy ddylunio.

Asesiadau effaith diogelu data

- 7.29 Bydd yr Awdurdod yn ystyried yr angen am, a lle bo angen, cynnal, Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA) wrth brosesu unrhyw ddata personol yn unol â'i bolisi ar Asesiadau Effaith Diogelu Data.
- 7.30 Bydd yr Awdurdod yn cynnal DPIA (ac yn trafod y canfyddiadau gyda'r Swyddog Diogelu Data) lle mae'n ymgymryd â gweithgaredd prosesu newydd a lle gallai hyn fod yn risg i hawliau a rhyddid unrhyw gorff sy'n destun y prosesu data hwn.
- 7.31 Rhaid cwblhau unrhyw DPIA gan ddefnyddio'r templed DPIA. Rhaid ffeilio cofnod y DPIA gyda'r Swyddog Diogelu Data.

Prosesu a gwneud penderfyniadau awtomataidd

- 7.32 Yn gyffredinol, nid yw'r Awdurdod yn ymwneud â phrosesu/proffilio awtomataidd, na gwneud penderfyniadau awtomataidd.
- 7.33 Lle mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau awtomataidd/proffilio, byddwn yn cymryd camau i hysbysu gwrthrych y data pam y teimlwn fod angen gwneud y penderfyniad neu'r proffilio, arwyddocâd unrhyw ganlyniadau tebygol a rhoi'r hawl i wrthrych y data ymyrryd, mynegi ei safbwynt neu herio'r penderfyniad. Lle bo modd, bydd yr Awdurdod yn gwneud hyn cyn i'r penderfyniad gael ei wneud.
- 7.34 Rhaid cynnal DPIA cyn ymgymryd ag unrhyw weithgareddau prosesu awtomataidd (gan gynnwys proffilio) neu wneud penderfyniadau awtomataidd.

Proseswyr data

- 7.35 Gall yr Awdurdod gcontractio â sefydliadau eraill i brosesu data personol ar ei ran.
- 7.36 Rhaid gwneud penderfyniadau i gyflogi prosesydd data yn dilyn diwydrwydd dyladwy ar y prosesydd arfaethedig, er mwyn sefydlu y gall y prosesydd ddarparu gwarantau digonol i roi mesurau technegol a threfniadol priodol ar waith yn y fath fodd fel y bydd y prosesu yn bodloni gofynion DPL.

Rhannu a datgelu data

- 7.37 Ni ddylid datgelu gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Awdurdod oni bai:
- Ei fod yn gyson â'n polisi ar ddiddymu dogfennau a TG yn cynnwys data personol a sensitif a'r oblygiad o brosesu teg
 - Ei fod yn angenrheidiol i'r Awdurdod arfer unrhyw un o'r swyddogaethau mae wedi derbyn trwy neu dan ddeddfiad
 - Ei fod fel arall yn deg ac yn gyfreithlon ac yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Diogelu Data; neu

- Mae Gwrthrych y Data wedi rhoi ei ganiatâd i'r datgeliad.

- 7.38 Wrth geisio caniatâd gan unigolyn, rhaid ei hysbysu o'r rheswm dros y datgeliad ac i bwy y bydd y datgeliad yn cael ei wneud. Dim ond os oes dewis gwirioneddol a theg i wrthrych y data ar y mater dan sylw y dylid ceisio caniatâd. Lle na cheisir caniatâd, gall fod yn briodol o hyd i wahodd eu barn ar ddatgelu.
- 7.39 Ym mhob achos, ni fydd mwy o wybodaeth nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r pwrpas yn cael ei ddatguddio. Mewn unrhyw achosion lle nad yw gwrthrych y data wedi rhoi ei ganiatâd/chaniatâd i ddatgelu, rhaid cyfeirio'r mater at y DPO, IAO neu'r SIRO cyn datgelu'r data.
- 7.40 Yn gyffredinol ni ddylid datgelu gwybodaeth bersonol ac eithrio yn unol â'r polisi hwn. Derbynnir, fodd bynnag, y gall fod angen trosglwyddiadau ar adegau prin. Os yw gwybodaeth bersonol i'w throsglwyddo y tu allan i'r Awdurdod mewn amgylchiadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi, yna dylid ceisio caniatâd gan y DPO, IAO neu'r SIRO cyn gynted â phosibl a dylid nodi'r rhesymau dros y datgeliad yn y log datgelu.
- 7.41 Nid oes unrhyw amgylchiadau i drosglwyddo gwybodaeth bersonol i wlad neu diriogaeth y tu allan i'r AEE heb Awdurdod y SIRO (neu berson dirprwyedig yn ei absenoldeb).

8. Y weithdrefn gwyno

- 8.1 Gall unrhyw un sy'n ystyried nad yw'r polisi hwn wedi'i ddilyn wneud cwyn i DPO yr Awdurdod. Gellir gwneud hyn drwy e-bostio Suzanne.dodds@professionalstandards.org.uk neu ysgrifennu at;

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol
16-18, New Bridge Street, Llundain, EC4V 6AG
Ffôn: 020 7389 8030
Ffacs: 020 7389 8040

- 8.2 Os ydych yn dal yn anfodlon, mae gennych yr hawl i gyfeirio'r mater at y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745
Ffacs: 01625 524 510
E-bost: enquiries@ico.gsi.gov.uk

9. Atodiad A: Diffiniadau

--	--

Deddfwriaeth Diogelu Data	O 25 Mai 2018 mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ynghyd â Deddf Diogelu Data 2018 (y Ddeddfwriaeth Diogelu Data) yn llywodraethu prosesu Data Personol. Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data yn ei gwneud yn ofynnol i Ddata Personol gan gynnwys Categoriâu Arbennig o Ddata Personol, sy'n cael eu hystyried yn fwy sensitif, gael eu prosesu gan Reolwyr Data yn unol â'r egwyddorion diogelu data a nodir yn y GDPR.
Rheolydd Data	Person naturiol neu gyfreithiol, unigolyn cyhoeddus, asiantaeth neu gorff arall sydd, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill, yn pennu dibenion a dulliau prosesu Data Personol. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data at ddibenion Deddfwriaeth Diogelu Data
Prosesydd Data	Unrhyw berson (ac eithrio gweithiwr i'r Rheolydd Data) sy'n prosesu'r data ar ran y Rheolydd Data.
Gwrthrych y Data	Unrhyw unigolyn byw sy'n destun Data Personol.
Data Personol	Ystyr 'Data Personol' yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn naturiol adnabyddadwy ('Gwrthrych y Data'); mae person naturiol adnabyddadwy yn un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol drwy gyfeirio at ddynodwr megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodwr ar-lein neu at un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth ffisegol, ffisiolegol, genetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw. Mae'r diffiniad uchod yn cynnwys unrhyw fynegiant barn am yr unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriadau'r Rheolydd Data (h.y. yr Awdurdod) neu unrhyw berson arall mewn perthynas â'r unigolyn.
Prosesu	Unrhyw weithrediad neu set o weithrediadau a gyflawnir ar Ddata Personol neu ar setiau o Ddata Personol, boed hynny drwy ddulliau awtomataidd ai peidio, megis casglu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, addasu neu newid, adalw, ymgynghori, defnyddio, datgelu gan trawsyrru, lledaenu neu wneud ar gael fel arall, aliniad neu gyfuniad, cyfyngu, dileu neu ddinistrio.
Categoriâu arbennig o Ddata Personol ("data personol sensitif" yn flaenorol)	Data Personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, neu aelodaeth undeb llafur, a phrosesu data genetig, data biometreg at ddibenion adnabod person naturiol yn unigryw, data sy'n ymwneud ag iechyd neu ddata sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn. Mae gwybodaeth am gyflawni troseddau neu achosion troseddol hefyd yn cael ei hystyried yn sensitif o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac rydym yn trin gwybodaeth o'r fath yn gymesur.

Rheolaeth Fersiwn

Fersiwn	Statws	Disgrifiad o'r Fersiwn	Dyddiad Cwblhau
1.0	Drafft	Polisi diogelu data	15/05/2018
1.1	Cymeradwy wyd	Polisi diogelu data	17/07/2020 18
1.2	Cymeradwy wyd	Addasiadau i wella ymarferoldeb	09/18
1.3	Cymeradwy wyd	Adolygiad IAO blynyddol dim newid	Tach 2020
1.4	Cymeradwy wyd	Manylion cyswllt wedi'i diweddarau	Tach 2023